# CYNGOR SIR PENFRO

## ADRAN IECHYD PORTHLADDOEDD, DIOGELWCH A BWYD

| POLISI | CYF. |
|---|---|
| **IECHYD A DIOGELWCH: POLISI GORFODI** | HSP01 |

| RHIF CYHOEDDI | PARATOWYD GAN | CYMERADWYWYD GAN | LLOFNOD | DYDDIAD |
|---|---|---|---|---|
| 02 | J BEYNON | Dr Steven Jones (Cyfarwyddwr Datblygu)<br><br>Y Cyng. Ken Rowlands (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Amgylcheddol a Rheoliadol) | Gweler ynghlwm | 28/05/09 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| COPI | 1 | O | 1 |

| CRYNODEB O ADOLYGIAD | | | |
|---|---|---|---|
| 14/05/09 Adolygiad polisi i ystyried darpariaethau Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, Deddf Iechyd a Diogelwch (Troseddau) 2008 a diwygiadau i'r meini prawf ar gyfer dewis digwyddiadau a chwynion. | | | |
| DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF | 28/05/09 | DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF | Ddim yn berthnasol |

# Cyflwyniad

Mae gorfodi a deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn anelu at warchod iechyd, diogelwch a lles pobl yn y gwaith, a diogelu pobl eraill, aelodau o'r cyhoedd yn bennaf, a allai fod yn agored i risgiau oherwydd y ffordd mae gwaith yn cael ei wneud.

Mae'r prif gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch yn y gweithle yn perthyn i gyflogwyr, cyflogeion a'r hunangyflogedig, sy'n gyfrifol am reoli risgiau. Cyfeirir yn gyffredinol at y rhain yn 'ddeiliaid dyletswydd'.

Rôl Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Cyngor'), yn awdurdod gorfodi iechyd a diogelwch, yw sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn rheoli risgiau'n effeithiol, ac felly'n atal niwed.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau gorfodi am rai safleoedd a gweithgareddau gwaith, fel y'u pennir gan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998. Estynnir y cyfrifoldebau hyn i gynnwys safleoedd petrolewm a drwyddedwyd gan y Cyngor yn unol â Deddfau Rheoliadau Petrolewm 1928 a 1936 a Deddf Petrolewm (Cydgrynhoi) 1928.

Er bod gorfodi deddfwriaeth gwarchod defnyddwyr ac iechyd cyhoeddus yn cael sylw'n gyffredinol gan Bolisi Gorfodi Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor, mae hwn (Polisi Gorfodi Iechyd a Diogelwch) yn nodi'r egwyddorion gorfodi sy'n berthnasol yn fanylach ac yn darparu gwybodaeth fwy penodol am ddewis opsiynau gorfodi perthnasol gan y Tîm Gorfodi Iechyd a Diogelwch. Bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso hefyd i orfodi safonau o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960.

# Diben Gorfodi

***Diben gorfodi*** yw:

- Sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn gweithredu i ymdrin ar unwaith â risgiau difrifol.
- Hyrwyddo a chyflawni cydymffurfiad parhaus â'r gyfraith.
- Sicrhau bod deiliaid dyletswydd sy'n torri gofynion iechyd a diogelwch, a chyfarwyddwyr neu reolwyr sy'n methu yn eu cyfrifoldebau, yn cael eu dal yn gyfrifol, a allai olygu dod â throseddau honedig gerbron y llysoedd.

Mae gorfodi'n wahanol i geisiadau sifil am iawndal ac ni fydd gorfodi'n digwydd ym mhob achos lle ceir mynd ar drywydd ceisiadau sifil, nac i gynorthwyo ceisiadau felly.

# Egwyddorion Gorfodi

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i orfodi cyfraith iechyd a diogelwch mewn modd cadarn ond teg ac wedi mabwysiadu 'Concordat Gorfodi' Swyddfa'r Cabinet.

Mae gorfodi'n cael ei lywio gan ***egwyddorion***:

- ***Cymesuredd*** wrth gymhwyso'r gyfraith a sicrhau cydymffurfiad.
- ***Cysondeb*** ymagwedd.
- ***Targedu*** camau gorfodi.
- ***Tryloywder*** o ran sut mae'r Cyngor yn gweithredu a'r hyn y gall deiliaid dyletswydd ei ddisgwyl.
- ***Atebolrwydd*** am gamau'r Cyngor.

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i orfodi mewn achosion unigol ac i reoli gweithgareddau gorfodi ar y cyfan.

- ***Cymesuredd***

Mae cymesuredd yn golygu cysylltu camau gorfodi â risg.

Bydd y camau a gymer y Cyngor i gyflawni cydymffurfiad, neu i ddwyn deiliaid dyletswydd i gyfrif am beidio â chydymffurfio, yn gymesur ag unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch, neu'n gymesur â difrifoldeb unrhyw achos o dorri, sy'n cynnwys unrhyw niwed gwirioneddol *neu bosibl* sy'n codi o unrhyw dorcyfraith.

Yn ymarferol, bydd y Cyngor yn ystyried i ba raddau mae'r deiliad dyletswydd wedi methu gwneud yr hyn mae'r gyfraith yn ei ofyn ac i ba raddau mae'r torcyfraith yn achosi risg i bobl.

Mae rhai dyletswyddau iechyd a diogelwch yn benodol ac yn ddiamod. Mae angen gweithredu ynghylch eraill 'i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol'. Bydd egwyddor cymesuredd yn cael ei chymhwyso mewn perthynas â'r ddau fath o ddyletswydd.

Mae penderfynu beth sy'n 'rhesymol ymarferol' i reoli risgiau yn golygu arfer synnwyr cyffredin. Ystyrir graddau'r risg ar y naill law, a'r aberth dan sylw (boed hwnnw mewn arian, amser neu drafferth) yn y mesurau sydd eu hangen i osgoi'r risg, ar y llaw arall.

Oni ellir dangos bod anghyfartaledd llwyr rhwng y ffactorau hyn a bod y risgiau'n ddi-nod mewn perthynas â'r gost, mae'n rhaid i ddeiliaid dyletswydd gymryd y camau sydd eu hangen a mynd i gostau i leihau'r risg.

Bydd y Cyngor yn disgwyl bod arfer da perthnasol yn cael ei ddilyn. Os na sefydlir hyn yn glir, mae gofyn i ddeiliaid dyletswydd ganfod arwyddocâd unrhyw risg i bennu pa gamau mae angen eu cymryd.

Yn y pen draw, y llysoedd fydd yn penderfynu beth sy'n rhesymol ymarferol.

Efallai bod rhai risgiau anostwng mor ddifrifol na ellir eu caniatáu ni waeth beth yw'r canlyniadau.

- ***Targedu***

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod cysylltiadau gorfodi'n cael eu targedu'n bennaf at y rheini y mae eu gweithgareddau'n peri'r risgiau mwyaf difrifol neu lle mae'r peryglon yn cael eu rheoli waethaf, a bod y camau hynny'n canolbwyntio ar y deiliaid dyletswydd sy'n gyfrifol am y risg ac sydd yn y sefyllfa orau i'w reoli.

Os oes cyfrifoldebau gan nifer o ddeiliaid dyletswydd, ceir gweithredu yn erbyn mwy nag un ohonynt pan fydd yn briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn.

Pan fydd arolygwyr yn cyhoeddi hysbysiadau gwella neu hysbysiadau gwahardd, neu'n amrywio amodau trwydded, yn rhoi rhybuddion syml neu'n erlyn, bydd Ysgrifennydd y Cwmni'n cael gwybod os yw'n berthnasol.

- ***Cysondeb***

Nid yw ymagwedd gyson yn golygu unffurfiaeth. Mae'n golygu cymryd ymagwedd debyg, mewn amgylchiadau tebyg, i gyflawni amcanion tebyg.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi y bydd deiliaid dyletswydd sy'n rheoli risgiau tebyg yn disgwyl ymagwedd gyson gan y Cyngor yn y cyngor a gynigir, yr ymagwedd at reoli ac mewn ymateb i ddigwyddiadau a chwynion.

Yn ymarferol, nid mater syml mo cysondeb a bydd llawer o newidynnau'n wynebu arolygwyr, gan gynnwys:

- maint y risg;
- agwedd a chymhwysedd rheolwyr;
- unrhyw hanes o ddigwyddiadau neu dorcyfraith sy'n cynnwys y deiliad dyletswydd;
- camau gorfodi blaenorol;
- difrifoldeb unrhyw dorcyfraith, gan gynnwys unrhyw niwed posibl neu wirioneddol; ac
- os oes partneriaeth Prif Awdurdod yn bodoli ar gyfer y busnes dan sylw (gweler isod), unrhyw gyngor a roddir i'r cwmni gan y Prif Awdurdod.

Er bod penderfyniadau am gamau gorfodi iechyd a diogelwch, yn ôl y gyfraith, fel y gwêl yr arolygydd yn ddoeth, mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i hyrwyddo cysondeb wrth arfer y doethineb hwn. Fe'u nodir yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

- ***Tryloywder***

Mae tryloywder yn golygu helpu deiliaid dyletswydd i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan y Cyngor. Mae hefyd yn golygu egluro i ddeiliaid dyletswydd yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud ond hefyd, os yw hyn yn berthnasol, yr hyn nad oes yn rhaid iddynt ei wneud. Mae hyn yn golygu gwahaniaethu rhwng gofynion statudol a chyngor am yr hyn sy'n ddymunol ond nad yw'n orfodol. *Fodd bynnag, dylid nodi y gallai fod yn bwysig cydymffurfio â chyngor ar arfer da wrth arddangos cydymffurfiad â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch cyffredinol.*

I fodloni'r amcan hwn, bydd cyngor yn cael ei roi'n glir ac yn syml ac yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig os yw hynny'n well gennych. Wrth wneud hynny, bydd yr arolygwyr yn egluro pam mae angen unrhyw waith adfer ac, os yw'n briodol, dros ba raddfa amser.

Mae tryloywder hefyd yn golygu bod trefniadau gan y Cyngor i roi gwybodaeth o hyd i gyflogeion, eu cynrychiolwyr, a dioddefwyr neu deuluoedd, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a gofynion cyfreithiol.

Os oes modd o gwbl, bydd arolygwyr yn cyfarfod neu'n siarad â chyflogeion neu eu cynrychiolwyr yn ystod eu hymweliadau, gan roi cyfle i siarad yn breifat os dymunant felly.

*Bydd arolygwyr hefyd yn darparu gwybodaeth i gyflogeion neu eu cynrychiolwyr sydd ei hangen er mwyn eu hysbysu o hyd am faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles, ac am gamau y mae'r arolygwr wedi'u cymryd, neu'n cynnig eu cymryd.*

*Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, caiff yr arolygydd ddarparu'r wybodaeth hon ar lafar neu'n ysgrifenedig.*

Gwneir darpariaeth ar gyfer budd arbennig y cyhoedd, busnesau a chyflogeion pan fydd yn rhesymol gwneud hynny.

- ***Atebolrwydd***

Mae'r Cyngor yn atebol i'r cyhoedd am ei weithredoedd.

Yn unol â hynny, mae wedi sefydlu:

- polisïau a safonau y gellir ei farnu mewn perthynas â hwy, a
- mecanwaith ar gyfer ymdrin â sylwadau a chwynion.

# Targedu Adnoddau

Wrth dargedu ei adnoddau, bydd y Cyngor yn ystyried yr egwyddorion a nodir isod; yr amcanion a gyhoeddir yng nghynlluniau strategol y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/Pwyllgor Cyswllt Gorfodi'r Awdurdod Lleol (HELA); unrhyw gyngor a roddir gan Gydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS) a'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO); ac unrhyw gynlluniau arolygu a sefydlwyd i gwmni gan ei Brif Awdurdod (gweler isod). Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei bod yn hanfodol cael cydbwysedd rhwng gwneud ymchwiliadau a gwneud gweithgareddau ataliol eraill, gan gynnwys arolygu.

- ***Arolygiadau ataliol a gweithgareddau rhagweithiol eraill***

Mae gweithleoedd y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu gorfodi yn cael asesiad risg ac yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiad yn unol â Chylchlythyr Awdurdod Lleol HELA LAC 67/1, diw. 3, (adeg ysgrifennu, mae'r ddogfen hon yn cael ei diwygio).

Bydd gweithleoedd y'u dosbarthir yn rhai risg uchel/canolradd, h.y. y rheini yng nghategorïau risg A, B1 a B2, yn destun arolygiad rheolaidd wedi'i raglennu. Cyn belled ag sy'n bosibl, cynhelir yr arolygiadau hyn ar yr adegau penodedig. Bydd arolygiadau hefyd yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth, fel y'u hamlygir gan ddata cenedlaethol/lleol yn rhai sy'n cyfrannu at yr anaf a/neu'r salwch mwyaf mewn perthynas â gwaith.

Ni fydd gweithleoedd eraill yn destun arolygiad rheolaidd wedi'i raglennu, ond efallai y cânt eu targedu yn rhan o ymgyrch neu brosiect ar wahân, neu gan un o amryw strategaethau gorfodi eraill.

Yn ymarferol, bydd arolygwyr yn defnyddio eu barn broffesiynol i bennu'r meysydd i'w cynnwys mewn arolygiad. Efallai hefyd bydd cynllun arolygu a sefydlwyd i gwmni gan ei Brif Awdurdod yn cyfyngu ar gwmpas arolygiad. Os bydd arolygydd yn gwneud arolygiad sy'n ymdrin â rhan o fusnes yn unig, bydd cwmpas yr arolygiad, a'r rheswm dros gyfyngu ar yr arolygiad, yn cael ei gofnodi yn y ffeil safle ac yn yr adroddiad arolygiad.

Mae manylion pellach ar gael yng Nghynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch y Cyngor, sy'n cael ei baratoi'n flynyddol ac sy'n ymddangos ar wefan y Cyngor yn www.pembrokeshire.gov.uk.

- ***Effaith cynllun partneriaeth y Prif Awdurdod ar arolygu gweithleoedd yn rhagweithiol***

Ar 6 Ebrill 2009, yn rhinwedd Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, daeth y cynllun Prif Awdurdod i rym ledled y DU, gan roi'r cyfle i gwmnïau ffurfio partneriaeth statudol ag un awdurdod lleol, sydd wedyn yn darparu cyngor cadarn a dibynadwy i awdurdodau lleol eraill i'w ystyried wrth wneud arolygiadau neu ymdrin â diffyg cydymffurfio.

Mae'n rhaid i'r Cyngor, a bydd y Cyngor, yn ystyried y gofynion hyn yn llawn.

Yn ymarferol, cyn arolygu unrhyw safle, bydd arolygwyr yn pennu a oes partneriaeth Prif Awdurdod yn bodoli ac, os felly, pa feysydd sy'n cael sylw. Os sefydlwyd partneriaeth berthnasol ar gyfer materion iechyd a diogelwch, ac os cytunwyd ar gynllun arolygu i'r cwmni dan sylw, bydd arolygwyr yn cadw at y cynllun hwn oni ellir cyfiawnhau gwyro oddi wrth y cynllun ac, os felly, ar ôl cytuno i

hyn *ymlaen llaw* â'r Prif Awdurdod (neu â'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol os bydd anghydfod) yn unig.

Mae diagram llif sy'n nodi sut gweithredir y trefniadau hyn yn cael ei gynnwys yn Atodiad A.

Bydd y cynllun Prif Awdurdod yn gweithredu ochr yn ochr â threfniadau partneriaeth anstatudol eraill a sefydlwyd o dan Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS, y bydd arolygwyr yn parhau i'w hystyried.

- ***Ymchwilio i ddigwyddiadau a chwynion***

Cynhelir ymchwiliadau i ddigwyddiadau peryglus, damweiniau, achosion o salwch perthnasol i waith, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn ddigwyddiadau, a chwynion, er mwyn pennu:

- achosion;
- a oes camau wedi'u cymryd neu a oes angen cymryd camau i'w hatal rhag ailddigwydd ac i sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith;
- gwersi i'w dysgu ac i ddylanwadu'r gyfraith a chanllawiau; a
- pha ymateb sy'n briodol i dorcyfraith.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n bosibl nac yn angenrheidiol i ddibenion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 fynd i'r afael yn ffurfiol â phob mater diffyg cydymffurfio â'r gyfraith sy'n cael ei ddatgelu yn ystod arolygiad ataliol, nac yn ystod yr ymchwiliad i ddigwyddiadau neu gwynion y rhoddwyd gwybod amdanynt.

I gynnal ymateb cymesur, bydd y meini prawf ar gyfer dewis digwyddiadau a chwynion i ymchwilio iddynt yn targedu materion mwy difrifol yn angenrheidiol, er mwyn peidio ag aflunio'r cydbwysedd adnoddau cyffredinol rhwng gwaith ataliol ac ymatebol.

Bydd y meini prawf canlynol yn berthnasol at ddiben dewis digwyddiadau a chwynion i ymchwilio iddynt, ac wrth bennu lefel yr adnoddau i'w defnyddio:

**Amgylchiadau a ddiffiniwyd ar gyfer ymchwiliad:**

- Marwolaethau sy'n digwydd yn sgil gwaith neu mewn cysylltiad â gwaith (ac eithrio hunanladdiad neu farwolaeth drwy achosion naturiol).

- Yr ANAFIADAU DIFRIFOL diffiniedig canlynol i bawb gan gynnwys y rheini nad ydynt yn gyflogeion:
  *- pob achos o dorri bysedd heibio cymal 1af y bys*
  *- toresgyrn lluosog difrifol (mwy nag 1 asgwrn, ac eithrio arddwrn neu bigwrn)*
  *- anafiadau mathru sy'n arwain at niwed i organau mewnol (e.e. dueg doredig)*
  *- anafiadau pen sy'n cynnwys colli ymwybyddiaeth*
  *- llosgiadau a sgaldiadau i fwy na 10% o wyneb y corff*
  *- dallineb parhaol mewn un neu ddau lygad*
  *- penflingo i unrhyw raddau*
  *- mygu*

- Pob clefyd a digwyddiad peryglus y gellir rhoi gwybod amdanynt dan RIDDOR (ac eithrio'r rheini yr ymchwiliwyd iddynt eisoes/sy'n destun ymchwiliad).

- Pob digwyddiad sy'n arwain at anafiadau difrifol diffiniedig RIDDOR* yn y categorïau canlynol:
  *- digwyddiadau cludiant yn y gweithle sy'n arwain at anaf difrifol**
  *- digwyddiadau trydanol sy'n arwain at anaf difrifol**
  *- cwympo o uchder dros 2m sy'n arwain at anaf difrifol**
  *- unrhyw anaf difrifol* o weithio mewn lle cyfyng*

**Amgylchiadau sy'n mynnu barn am ddifrifoldeb:**

- Digwyddiad sy'n debygol o achosi gofid difrifol gan y cyhoedd cyffredinol a'r canlyniad/canlyniad posibl yn ddifrifol gan ystyried plant, oedolion agored i niwed ac anafedigion lluosog.

- Digwyddiad sy'n debygol of fod wedi'i achosi gan achos difrifol o dorcyfraith iechyd a diogelwch h.y. drwy'r Model Rheoli Gorfodi (EMM); byddai hysbysiad neu erlyniad yn digwydd o ganlyniad.

**Amgylchiadau sy'n caniatáu dewis:**

- Ymchwiliad yn cyfrannu at Raglen Flaenoriaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

- Digwyddiad sy'n cynnwys prosesau neu offer newydd.

- Hanes cwmni.

- Dosbarthiad risg cwmni.

- Ffydd mewn rheolwyr.

- Hyfforddi arolygwyr

**Anaf difrifol: Pob achos o dorri bys heibio cymal 1[af] y bys, cymal, llaw, braich, troed neu goes; torasgwrn heblaw i fysedd, bodiau neu fysedd traed; datgymalu ysgwydd, clun, pen-glin neu asgwrn cefn; colli golwg (dros dro neu'n barhaol); llosgiad cemegol neu fetel poeth neu anaf treiddio i'r llygad; anaf o losgiad/sioc drydanol sy'n arwain at anymwybyddiaeth neu adfywio neu aros yn yr ysbyty >24awr; unrhyw anaf sy'n arwain at hypo/hyperthermia neu anymwybyddiaeth neu adfywio neu aros yn yr ysbyty >24 awr.*

Wrth ystyried y meini prawf uchod, ceir anghymwyso digwyddiadau o ymchwiliad os yw'r ymchwiliad yn anymarferol, os nad oes mesurau lleihau risg posibl neu os nad oes adnoddau digonol.

Arolygwyr yn gyffredinol fydd yn gwneud penderfyniadau am ymchwilio i gwynion.

Bydd penderfyniadau ynghylch a ddylid ymchwilio i ddigwyddiadau neu beidio yn cael eu cymeradwyo gan Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd neu'r Rheolwr Iechyd Porthladdoedd, Diogelwch a Bwyd.

Os ystyrir y dylid anghymwyso digwyddiad sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ymchwiliad am un o'r ffactorau a roir uchod, y Rheolwr Iechyd Porthladdoedd, Diogelwch a Bwyd fydd yn penderfynu a fydd ymchwiliad yn cael ei gynnal.

Mewn achosion lle rhennir rôl orfodi, cysylltir ag asiantaethau eraill a allai fod yn cymryd rhan yn gynnar er mwyn cadarnhau cyfrifoldebau'r partïon priodol ym mhob achos.

- ***Marwolaethau mewn cysylltiad â gwaith***

Os cafwyd torcyfraith sydd wedi arwain at farwolaeth mewn cysylltiad â gwaith, bydd y Cyngor yn ystyried y posibilrwydd y gallai amgylchiadau'r achos gyfiawnhau cyhuddiad o ddynladdiad.

I sicrhau bod penderfyniadau ar ymchwilio ac erlyn yn cael eu cydlynu'n agos ar ôl marwolaeth mewn cysylltiad â gwaith, bydd ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn unol â *'Work Related Death: A Protocol for Liaison'*, a gefnogir gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP).

Mae'r heddlu'n gyfrifol am benderfynu a ddylid mynd ar drywydd ymchwiliad dynladdiad, tra bydd arolygwyr iechyd a diogelwch y Cyngor yn ymchwilio i droseddau iechyd a diogelwch posibl ac yn cymryd camau yn unol â'r polisi hwn.

# Ymagwedd at Orfodi

Bydd arolygwyr iechyd a diogelwch y Cyngor yn rhoi taflen HSC *'What to expect when a health and safety inspector calls'* i'r rheini yr ymwelant â hwy. Mae'r daflen hon yn egluro'r hyn y gall cyflogwyr a chyflogeion a'u cynrychiolwyr ei ddisgwyl pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn galw mewn gweithle.

Mae ystod eang o offer ar gael i'r Cyngor wrth iddo geisio sicrhau cydymffurfiad â chyfraith iechyd a diogelwch a sicrhau ymateb cymesur i droseddau.

Caiff arolygwyr gynnig gwybodaeth a chyngor i ddeiliaid dyletswydd, a hynny wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig. Os yw'n briodol, caiff arolygwyr hefyd gyflwyno hysbysiadau gwella a gwahardd, amrywio amodau trwydded, rhoi rhybuddion syml ac erlyn.

Yn ymarferol, bydd penderfyniadau gorfodi iechyd a diogelwch yn cael eu tywys gan y Model Rheoli Gorfodi (EMM), sy'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau gyda'r nod o ddewis cam gorfodi sy'n gymesur â'r risg sy'n codi o dorcyfraith, ac yn gymesur â gofynion y Polisi Gorfodi hwn.

Bydd canllawiau a gofynion perthnasol eraill yn cael eu hystyried hefyd gan gynnwys:

- cyngor a roddir gan Gydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS)
- y Concordat Gorfodi
- unrhyw Godau Ymarfer perthnasol a gyhoeddir o dan Ddeddf Diwygio Rheoleiddio 2001
- Cod Cydymffurfio'r Rheolyddion
- Y Cod i Erlynyddion y Goron
- Cylchlythyr Swyddfa Gartref 16/2008 (Rhybuddion syml i oedolion sy'n troseddu)
- Deddf Hawliau Dynol 1998.

Cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol, bydd arolygwyr yn rhoi cyfle i ddeiliaid dyletswydd drafod amgylchiadau'r achos ac, os oes modd, datrys gwahaniaeth barn, oni bai bod angen gweithredu ar unwaith.

Os ystyrir bod angen gweithredu ar unwaith, eglurir ar y pryd pam oedd angen gweithredu felly ac fe gadarnheir hyn mewn llythyr gan amlaf ymhen 5 diwrnod gwaith ac ym mhob achos ymhen 10 diwrnod gwaith.

- ***Arwyddocâd y Cynllun Partneriaeth Prif Awdurdod (a'r Cynllun Partneriaeth Awdurdod Arweiniol a Rhaglen Beilot Sefydliad Mawr) i benderfyniadau gorfodi***

Ar 6 Ebrill 2009, yn rhinwedd Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, daeth y cynllun Prif Awdurdod i rym ledled y DU, gan roi'r hawl i gwmnïau ffurfio partneriaeth statudol ag un awdurdod lleol, sydd wedyn yn darparu cyngor cadarn a dibynadwy i awdurdodau lleol eraill i'w ystyried wrth wneud arolygiadau neu ymdrin â diffyg cydymffurfio.

Mae'n rhaid i'r Cyngor, a bydd y Cyngor, yn ystyried y gofynion hyn yn llawn.

Yn ymarferol, cyn cymryd camau gorfodi 'ffurfiol' yn erbyn cwmni sy'n destun partneriaeth Prif Awdurdod ar gyfer y maes/meysydd dan sylw, bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Prif Awdurdod *cyn* cymryd unrhyw gamau.

Yn gyffredinol, dim ond i orfodi statudol mae'r ddyletswydd ymgynghori hon yn berthnasol, er bydd hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae camau gorfodi anstatudol yn nodi yr ystyrir camau cyfreithiol os methir dilyn unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd.

Mae eithriad yn berthnasol mewn achosion lle mae angen gweithredu ar frys i warchod iechyd a/neu ddiogelwch cyflogai neu'r cyhoedd, e.e. cyflwyno Hysbysiad Gwahardd.

Bydd y Prif Awdurdod yn ystyried a yw'r cam a gynigiwyd gan y Cyngor yn anghyson â chyngor a roes yn flaenorol i'r cwmni. Os nad yw'r cam a gynigir yn anghyson ag unrhyw gyngor a roddwyd yn flaenorol, bydd y Cyngor yn rhydd i fynd ymlaen â'i gamau gorfodi arfaethedig.

Os yw'r gorfodi a gynigiwyd yn anghyson, bydd y Cyngor yn ceisio cyd-drafod ffordd ymlaen â'r Prif Awdurdod.

Os bydd anghydfod, nad oes modd ei ddatrys er boddhad y Cyngor, bydd y Cyngor yn codi'r mater gyda'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol, sydd â chyfrifoldeb statudol am wneud penderfyniad.

Mae diagram llif sy'n nodi sut gweithredir y trefniadau hyn yn cael ei gynnwys yn Atodiad A.

Er cysondeb, os yw'r Cyngor yn cynnig cymryd camau anffurfiol yn erbyn cwmni, ac os gallai'r camau hyn effeithio ar unrhyw gyngor a roddwyd yn ganolog i'r cwmni gan ei Brif Awdurdod, cysylltir â'r Prif Awdurdod eto cyn cymryd camau.

Bydd y cynllun Prif Awdurdod yn gweithredu ochr yn ochr â threfniadau partneriaeth anstatudol eraill a sefydlwyd o dan y Cynllun Partneriaeth Awdurdod Arweiniol neu'r Rhaglen Beilot Sefydliad Mawr, y bydd swyddogion yn parhau i'w hystyried. Yn arbennig, cysylltir â'r awdurdod lleol arweiniol os gallai camau gorfodi effeithio ar unrhyw bolisïau a/neu weithdrefnau y cytunwyd arnynt yn ganolog.

- ***Camau anffurfiol***

Ym mwyafrif helaeth yr achosion, mae cydymffurfio â'r gyfraith yn cael ei hyrwyddo a'i sicrhau'n anffurfiol gan arolygwyr sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth, wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig.

Bydd **camau anffurfiol** yn briodol yn gyffredinol:

- os nad yw'r weithred neu'r hepgoriad yn ddigon difrifol i warantu camau ffurfiol; **ac**
- o ystyried hanes blaenorol yr unigolyn/y fenter, os gellir disgwyl yn rhesymol y bydd camau anffurfiol yn cyflawni cydymffurfiad; **ac**
- os yw ffydd yn rheolaeth yr unigolyn/y fenter yn uchel; **ac**
- os na fydd canlyniadau diffyg cydymffurfio yn golygu risg sylweddol i iechyd a/neu ddiogelwch.

Mae'n bolisi gan y Cyngor ysgrifennu at y deiliad dyletswydd ble bynnag y nodir bod deddfwriaeth wedi'i thorri yn dilyn ymchwiliad, arolygiad neu gyswllt rheoleiddiol arall.

Bydd yr ohebiaeth hon:

- yn nodi pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i gydymffurfio â'r gyfraith;
- y rheswm/rhesymau pam y mae'n rhaid cymryd y camau; ac
- yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol a chyngor arfer gorau.

Bydd yr amserlen y cytunwyd arni ar gyfer cwblhau unrhyw waith yn cael ei chynnwys, lle bo'n briodol.

*Mae gan y Cyngor ddyletswydd i barhau i roi gwybodaeth ddigonol i gyflogeion am faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles. Yn ymarferol, bydd arolygwyr yn rhoi gwybodaeth i gyflogeion neu eu cynrychiolwyr sy'n angenrheidiol i'w hysbysu o hyd am faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles, ac am gamau y mae'r arolygydd wedi'u cymryd, neu'n cynnig eu cymryd.*

*Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, caiff yr arolygydd ddarparu'r wybodaeth hon ar lafar neu'n ysgrifenedig.*

- ***Ailymweliadau***

Yn gyffredinol, ni ddylai fod angen ailymweliadau i sicrhau cydymffurfiad ar ôl pob arolygiad, oherwydd dylid ymdrin â risgiau sylweddol adeg yr ymweliad cychwynnol.

Fodd bynnag, cynhelir ailymweliadau os oes angen, er mwyn casglu tystiolaeth neu sicrhau cydymffurfiad â hysbysiad gorfodi neu gamau gorfodi eraill.

Os nodir mân achosion o dorri rheoliadau, dylai'r arolygiad a gynllunnir wedyn gynnig digon o gyfle i bennu cydymffurfiad effeithiol. Fel arall, ceir gofyn i fusnesau gadarnhau eu bod yn cydymffurfio yn ysgrifenedig. Os na cheir cadarnhad ysgrifenedig, ailymwelir â'r safle.

Os bydd diffyg cydymffurfio parhaus yn amlwg, bydd camau gorfodi pellach yn cael eu cymryd.

- ***Hysbysiadau Gwella***

Ni ddefnyddir Hysbysiadau Gwella statudol yn gyffredinol heblaw mewn amgylchiadau lle mae risg i iechyd a/neu ddiogelwch neu lle mae materion lles sylweddol.

Bydd **Hysbysiadau Gwella** yn cael eu cyflwyno'n gyffredinol:

- os oes deddfwriaeth wedi'i thorri'n ddifrifol; **a/neu**
- os oes diffyg ffydd yn yr unigolyn/y fenter i ymateb i ymagwedd anffurfiol; **a/neu**
- os oes hanes o ddiffyg cydymffurfio â chamau anffurfiol; **a/neu**
- os yw safonau'n gyffredinol wael heb fod y rheolwyr yn ymwybodol iawn o ofynion statudol; **a/neu**
- os gallai canlyniadau diffyg cydymffurfio fod yn ddifrifol i iechyd a/neu ddiogelwch.

Bydd arolygwyr yn trafod yr hysbysiad ac, os oes modd, yn datrys gwahaniaeth barn cyn ei gyflwyno. Bydd yr hysbysiad:

- yn nodi'r hyn mae angen ei wneud;

- pam;
- erbyn pryd; a
- bod torcyfraith wedi'i gyflawni ym marn yr arolygydd.

Bydd eglurhad yn cael ei gynnwys am yr hawl i apelio i dribiwnlys cyflogaeth.

Yn unol â Deddf Gwybodaeth am yr Amgylchedd a Diogelwch 1998, bydd Hysbysiadau Gwella sy'n berthnasol i faterion o bwys cyhoeddus yn cael eu rhoi ar gofrestr gyhoeddus.

Bydd copi o'r Hysbysiad Gwella'n cael ei anfon hefyd at gynrychiolydd cyflogai.

Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella a bydd hyn yn arwain fel arfer at erlyniad.

- ***Hysbysiadau Gwahardd***

Os oes risg o anaf personol difrifol, mae'n rhaid i arolygwyr ystyried defnyddio Hysbysiad Gwahardd; caiff hwn fod yn effeithiol ar unwaith neu gael ei oedi ac, os felly, byddai'n effeithiol ar ôl cyfnod penodedig.

Bydd **Hysbysiadau Gwahardd** yn cael eu cyflwyno'n gyffredinol:

- pe byddai canlyniadau peidio â chymryd camau pendant ar unwaith i warchod iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd yn annerbyniol
- os gellir arddangos risg o anaf i iechyd a/neu ddiogelwch (gallai hyn gynnwys tystiolaeth o arbenigwyr perthnasol fel peiriannydd trydanol)
- os nad oes ffydd yng nghywirdeb ymrwymiad unigolyn/menter i roi pen yn wirfoddol ar y gweithgarwch neu'r defnydd o offer neu'r broses beryglus sy'n gysylltiedig â'r risg agos

Bydd yr hysbysiad yn egluro pam mae angen gwahardd.

Bydd eglurhad yn cael ei gynnwys am yr hawl i apelio i dribiwnlys cyflogaeth.

Yn unol â Deddf Gwybodaeth am yr Amgylchedd a Diogelwch 1998, bydd Hysbysiadau Gwahardd sy'n berthnasol i faterion o bwys cyhoeddus yn cael eu rhoi ar gofrestr gyhoeddus.

Bydd copi o'r Hysbysiad Gwahardd hefyd yn cael ei anfon at gynrychiolydd

cyflogai.

Mae’n drosedd peidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gwahardd a bydd hyn yn arwain fel arfer at erlyniad.

- ***Rhybuddion Syml***

Ceir cynnig rhybudd syml yn lle erlyniad mewn rhai amgylchiadau.

Diben rhybudd syml yw:

- ymdrin yn syml ac yn gyflym â throseddau llai difrifol os yw’r troseddwr wedi cyfaddef y drosedd;
- dargyfeirio troseddwyr os yw’n briodol rhag ymddangos yn y llysoedd troseddau
- cofnodi ymddygiad troseddol unigolyn er mwyn cyfeirio ato mewn achosion troseddol yn y dyfodol efallai; a
- lleihau tebygolrwydd aildroseddu.

Wrth ystyried a allai fod yn briodol rhoi rhybudd syml yn lle erlyn, bydd Cylchlythyr Swyddfa Gartref 16/2008 (Rhybuddion syml i oedolion sy’n troseddu) yn cael ei ystyried.

I ddiogelu buddiannau troseddwyr *a ddrwgdybir,* bodlonir yr amodau canlynol cyn rhoi **rhybudd syml**:

- mae’n rhaid bod y sawl a ddrwgdybir wedi cyfaddef y drosedd mewn modd clir a dibynadwy naill ai ar lafar neu’n ysgrifenedig; **ac**
- mae’n rhaid bod collfarn yn bosibilrwydd realistig; **ac**
- mae er lles y cyhoedd defnyddio rhybudd syml yn fodd o waredu; **ac**
- mae’r troseddwr yn 18 oed neu’n hŷn adeg rhoi’r rhybudd; **ac**
- mae rhybudd syml yn briodol i’r drosedd ac i’r troseddwr; **ac**
- mae’n rhaid i’r troseddwr gydsynio i gael rhybudd.

Os bydd unigolyn/menter yn gwrthod y cynnig o rybudd syml, ymdrinnir â’r mater fel arfer drwy fodd erlyniad.

Os yw’n briodol gwneud hynny’n unol â’r polisi hwn, ceir rhoi Rhybudd Syml yn

ogystal â Hysbysiad Gwella neu Wahardd.

- ***Erlyniad***

Er prif ddiben y Cyngor yw sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn rheoli risgiau'n effeithiol, gan atal niwed felly, mae erlyniad yn rhan hanfodol o orfodi.

Wrth benderfynu a ddylid erlyn, ystyrir y prawf tystiolaethol a'r ffactorau lles cyhoeddus perthnasol a nodwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron.

Ni fydd unrhyw erlyniad yn mynd rhagddo heblaw bod digon o dystiolaeth i ddarparu posibilrwydd realistig o gollfarn a heblaw y byddai erlyniad er lles y cyhoedd.

Os bydd yr amgylchiadau'n ei ganiatáu ac os oes tystiolaeth ar gael i gefnogi achos, caiff y Cyngor erlyn heb rybudd blaenorol na throi at sancsiynau eraill.

Os yw'n briodol gwneud hynny'n unol â'r polisi hwn, ceir dwyn erlyniad yn ogystal â rhoi Hysbysiad Gwella neu Wahardd.

Yn amodol ar fodloni'r profion uchod, bydd **erlyniad** fel arfer yn cael ei ddwyn os bydd un neu ragor o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol, ar ôl ymchwiliad neu gyswllt rheoleiddiol arall:

- mae ***difrifoldeb trosedd honedig, ynghyd â difrifoldeb unrhyw niwed gwirioneddol neu bosibl,*** yn ei warantu. Mae hyn yn cynnwys pob achos lle mae marwolaeth wedi digwydd yn sgil torri deddfwriaeth.

- mae/bu ***methiannau difrifol o ran rheoli*** (h.y. os canfyddir bod safon rheoli iechyd a diogelwch deiliad dyletswydd ymhell islaw'r hyn sy'n ofynnol gan gyfraith iechyd a diogelwch a'i bod yn achosi risg sylweddol).

- mae'n ***briodol yn yr amgylchiadau yn fodd o dynnu sylw cyffredinol i'r angen i gydymffurfio*** â'r gyfraith a chynnal safonau sy'n ofynnol gan y gyfraith, a gallai collfarn atal eraill rhag methu'n debyg â chydymffurfio â'r gyfraith

- mae ***record ac ymagwedd gyffredinol y troseddwr*** yn ei warantu. Bydd hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle rhoddwyd gwybodaeth ffug yn fwriadol, neu os bwriadwyd twyllo, mewn perthynas â mater sy'n achosi risg sylweddol, a'r rheini lle mae arolygwyr wedi cael eu rhwystro'n fwriadol rhag cyflawni eu dyletswyddau'n gyfreithlon. Os ymosodir ar arolygwyr, bydd y Cyngor yn ceisio cymorth yr heddlu, gyda'r bwriad o geisio erlyn troseddwyr.

- mae ***gofynion iechyd a diogelwch wedi'u diystyru'n ddi-hid.*** Bydd hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae torcyfraith sy'n achosi risg sylweddol wedi parhau er gwaethaf rhybuddion perthnasol gan gyflogeion, neu gynrychiolwyr eraill, neu gan eraill mae gwaith yn effeithio arnynt a'r rheini lle mae gwaith wedi'i wneud heb drwydded briodol neu gan fethu'n ddifrifol â chydymffurfio â thrwydded briodol neu achos diogelwch.

- cafwyd ***torcyfraith mynych neu ddiffyg cydymffurfio parhaus.*** Yn ymarferol, mae hyn yn berthnasol i dorcyfraith mynych sy'n achosi risg sylweddol, ac i ddiffyg cydymffurfio parhaus a sylweddol.

- Cafwyd ***methiant i gydymffurfio â rhybudd ysgrifenedig neu rybudd a roddwyd***. Mae'n cynnwys unrhyw fethiant i gydymffurfio â hysbysiad gwella neu wahardd, neu ailadrodd torcyfraith a fu'n destun rhybudd syml, neu fethiant i dderbyn rhybudd syml.

Fodd bynnag, ystyrir:

- ***parodrwydd y troseddwr i atal ailddigwyddiad***.

- ***tebygolrwydd amddiffyniad llwyddiannus***.

- ***yr eglurhad a gynigir gan y troseddwr.***

- ***gallu tystion i gydweithredu.***

Wrth bennu pwy i'w erlyn, ystyrir y gadwyn reoli a'r rôl sy'n cael ei chwarae gan wahanol gyfarwyddwyr a rheolwyr. Bydd camau'n cael eu cymryd yn erbyn unigolion felly os bydd yr arolygiad neu'r ymchwiliad yn datgelu bod y drosedd wedi'i chyflawni gyda'i gydsyniad neu oddefiad neu ei bod wedi'i phriodoli i esgeulustod ar ei ran, a lle byddai'n briodol gwneud hynny'n unol â'r polisi hwn.

Os yw'n briodol, bydd y Cyngor yn ceisio anghymwyso cyfarwyddwyr o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmni 1986.

Os bydd achos yn ddigon difrifol, ac os caiff y cyfle, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i ynadon y gallai trosedd fod mor ddifrifol y gallant ei anfon i gael ei glywed neu ei ddedfrydu yn y llysoedd uwch lle gellir gosod cosbau uwch. Wrth ystyried pa gyflwyniadau i'w gwneud, bydd y Cyngor yn ystyried canllawiau'r Llys Apêl.

Os yw'n briodol, bydd y Cyngor hefyd yn tynnu sylw'r llys i'r holl ffactorau sy'n berthnasol i'w benderfyniad ynghylch pa ddedfryd sy'n briodol ar gollfarn.

# Cosbau

Nodir troseddau a chosbau mwyaf o dan Adran 33 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (fel y'i diwygiwyd).

Er 16 Ionawr 2009, mae Deddf Iechyd a Diogelwch (Troseddau) 2008:

- yn codi'r ddirwy fwyaf y ceir ei gosod yn y llysoedd isaf i £20,000 am y rhan fwyaf o droseddau iechyd a diogelwch.
- yn gwneud carchariad yn ddewis ar gyfer mwy o droseddau iechyd a diogelwch yn y llysoedd isaf ac uchaf.
- yn gwneud rhai troseddau, a oedd yn brofadwy'n flaenorol yn y llysoedd isaf yn unig, yn brofadwy yn y llysoedd isaf neu uchaf.

Mae gwahanol gosbau'n berthnasol i droseddau a ddygwyd o dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1976, y gellid eu dwyn hefyd efallai gan y Tîm Iechyd a Diogelwch.

Yn ogystal ag unrhyw ddirwyon y gellir eu dyfarnu, mae'n bolisi gan y Cyngor geisio adennill costau llawn am ymchwiliadau sy'n arwain at erlyniad.

# Cyhoeddusrwydd

Bydd y Cyngor yn ymateb i ymholiadau'r wasg am gyhuddiadau a osodwyd gerbron y llysoedd ac yn darparu gwybodaeth ffeithiol lle bynnag y mae modd. Wrth wneud hynny, bydd yn siŵr o osgoi unrhyw gyhoeddusrwydd a allai niweidio

prawf teg.

Ystyrir hefyd cyhoeddi unrhyw gollfarn a allai dynnu sylw i'r angen i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, neu atal unrhyw un sydd wedi'i demtio i ddiystyru ei ddyletswyddau o dan gyfraith iechyd a diogelwch. Bydd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am erlyniad ag Uned Awdurdod Lleol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Bydd gwybodaeth am y collfarnau hyn (ac am hysbysiadau gwella a gwahardd served) ar gael i'r cyhoedd ar gais.

# Sicrhau Cysondeb mewn Gorfodi

Ni fydd y Cyngor yn awdurdodi arolygwyr heblaw bod ganddynt gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas mewn perthynas â gorfodi iechyd a diogelwch. Bydd arolygwyr newydd a benodwyd yn cael mynd trwy raglen briodol o hyfforddi a goruchwylio, yn unol â fframwaith cymhwysedd priodol.

Wrth ystyried a gydymffurfiwyd â'r gyfraith, bydd arolygwyr yn ystyried canllawiau a Chodau Ymarfer Cymeradwy perthnasol, gan ddefnyddio barn synhwyrol am faint y risgiau a'r ymdrech a wnaethpwyd i'w lleddfu.

Bydd penderfyniadau gorfodi'n cael eu tywys gan y Model Rheoli Gorfodi (EMM), ac yn unol â gofynion y Polisi Gorfodi hwn.

I sicrhau bod y dehongliad o ofynion ac ymagwedd at orfodi'n parhau'n briodol ac yn gyson yn yr Awdurdod, bydd arolygwyr yn destun monitro rheolaidd gan Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Iechyd a Diogelwch) a/neu'r Rheolwr Iechyd Porthladdoedd, Diogelwch a Bwyd, yn unol â gweithdrefn monitro fewnol. Yn rhan o'r broses hon, bydd cofnodion arolygu a chais am wasanaeth yn cael eu hadolygu ac ymweliadau â chwmni'n cael eu cynnal. Yn ogystal, bydd hysbysiadau statudol yn destun adolygiad cymheiriaid cyn eu cyhoeddi os oes modd.

Er bod y penderfyniad i gynnig rhybudd syml ac i erlyn am droseddau iechyd a diogelwch yn perthyn i arolygwyr awdurdodedig, bydd achosion yn cael eu hystyried yn ymarferol, a'r weithred yn cael ei chymeradwyo, gan y Rheolwr Iechyd Porthladdoedd, Diogelwch a Bwyd, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a'r Cyfarwyddwr Datblygu, yn unol â Phrotocol Erlyn Isadran Diogelu'r Cyhoedd.

Yn genedlaethol, mae trefniadau'n bodoli i gydgysylltu safonau gorfodi drwy'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Phwyllgor Cyswllt Gorfodi (HELA) yr Awdurdod Lleol / yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae HELA yn darparu cyngor a chyfarwyddyd cyson i awdurdodau lleol a diwydiant.

Cyflawnir cysondeb rhanbarthol mewn cyswllt ag awdurdodau lleol eraill drwy

Dasglu Iechyd a Diogelwch De-orllewin Cymru, Panel Technegol Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan a Swyddog Cyswllt Gorfodi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Cysylltir hefyd â chyrff gorfodi eraill gan gynnwys Safonau Masnach, Rheoli Adeiladu a'r Gwasanaeth Tân, yn ôl yr angen.

Fel y nodir uchod, cyn cymryd camau gorfodi 'ffurfiol' yn erbyn cwmni sy'n destun partneriaeth Prif Awdurdod ar gyfer y maes/meysydd dan sylw, bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Prif Awdurdod *cyn* cymryd unrhyw gamau.

Yn gyffredinol, dim ond i orfodi statudol mae'r ddyletswydd ymgynghori hon yn berthnasol (heblaw bod angen gweithredu ar unwaith i warchod iechyd a/neu ddiogelwch), er bydd hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae camau gorfodi anstatudol yn nodi yr ystyrir camau cyfreithiol am fethu dilyn unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd.

Er cysondeb, os yw'r Cyngor yn cynnig cymryd camau anffurfiol yn erbyn cwmni, ac os gallai'r camau hyn effeithio ar unrhyw gyngor a roddwyd yn ganolog i'r cwmni gan ei Brif Awdurdod, cysylltir eto â'r Prif Awdurdod cyn cymryd camau.

Bydd y cynllun Prif Awdurdod yn gweithredu ochr yn ochr â threfniadau partneriaeth anstatudol eraill a sefydlwyd o dan y Cynllun Partneriaeth Awdurdod Arweiniol neu'r Rhaglen Beilot Sefydliad Mawr, y bydd swyddogion yn parhau i'w hystyried. Yn arbennig, cysylltir â'r awdurdod lleol arweiniol os gallai camau gorfodi effeithio ar unrhyw bolisïau a/neu weithdrefnau y cytunwyd arnynt yn ganolog.

## Cwynion

Ymchwilir i gwynion am y gwasanaeth yn unol â pholisi 'Cwynion, Canmoliaeth ac Awgrymiadau' y Cyngor. Mae'r polisi hwn yn ymddangos ar wefan y Cyngor yn www. pembrokeshire.gov.uk , ac mae taflen gyfarwyddyd ar gael ar gais.

Dylid gwneud cwynion i ddechrau i'r Rheolwr Iechyd Porthladdoedd, Diogelwch a Bwyd y Cyngor, a fydd yn ymchwilio iddynt.

Manylion cyswllt:

Rheolwr Iechyd Porthladdoedd, Diogelwch a Bwyd
Isadran Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
SA61 1TP

Ffôn: (01437) 775636
Ffacs: (01437) 775494
e-bost: healthandsafety@pembrokeshire.gov.uk*

*Cyfrif e-bost cyffredinol y mae pob Arolygydd Iechyd a Diogelwch yn ei ddefnyddio

Mae’r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu datrys yn y modd hwn, yn aml ar unwaith.

Gall achwynyddion hefyd gysylltu ag Uned Awdurdod Lleol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a fydd yn sicrhau bod cwynion yn cael sylw prydlon a theg gan y Cyngor.

Mewn achosion o gamweinyddu, gellir hefyd gwneud cwynion i Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru.

## Gorfodi o ran y safleoedd hynny lle mae budd gan y Cyngor

Cydnabyddir y gall gwrthdaro buddiannau ddigwydd yn y safleoedd hynny sydd â’r Cyngor yn awdurdod gorfodi perthnasol, ac y mae gan y Cyngor fudd rheoli ynddynt neu berchenogaeth arnynt.  Mae enghreifftiau o safleoedd felly yn cynnwys canolfannau hamdden, amgueddfeydd, cyrsiau golff etc sy’n eiddo i’r awdurdod lleol.

Bydd y safleoedd hyn yn gyffredinol yn troi at y Cyngor ar gyfer gorfodi gofynion iechyd a diogelwch, ar wahân i unrhyw gyfrifoldebau iechyd a diogelwch gweddilliol sy’n perthyn i’r Cyngor, gan ei fod yn berchennog ar y safle, yn gyflenwr offer, neu’n gleient unrhyw gontractwyr, a fyddai’n parhau i gael eu gorfodi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Os oes cymaint o fudd gan yr awdurdod na ddylai weithredu rhagor mewn rôl orfodi, e.e. os oes ganddo’r holl gyfrifoldebau dan gyfraith iechyd a diogelwch heb fod cyfrifoldeb felly o gwbl gan y contractwyr neu feddianwyr a benodwyd ganddo, y nod fydd trosglwyddo cyfrifoldebau gorfodi i Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau Maes (FOD) yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Yn unol â gofynion Cylchlythyr HELA 22/10, i sicrhau didwylledd a thryloywder o ran safleoedd y gall fod budd gan y Cyngor ynddynt, bydd y Cyngor:

- Yn cyflawni ei bolisi a'i arfer gorfodi yn yr un ffordd yn union a wna ym mhob safle arall.

- Yn sicrhau bod y sylw a geir yn unol â'r meini prawf a gymhwysir i ddeiliaid dyletswydd eraill.

- Yn parhau i roi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am unrhyw sefyllfaoedd lle gallai fod budd gorfodi ganddo er mwyn iddo ystyried i ba raddau mae ynghlwm wrthynt. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn rhagweithiol yn trosglwyddo'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn iddo ystyried a warantir unrhyw gamau pellach.

- Yn cadw amryw rolau'r Cyngor ar wahân yn glir i sicrhau nad oes gofyn i wahanol swyddogion weithredu mewn modd sy'n eu tynnu i mewn i wrthdaro buddiannau.

- Yn sicrhau bod unrhyw ymchwiliad yn cadw ei annibyniaeth a'i wrthrychedd ac, mewn amgylchiadau eithriadol, yn ystyried penodi swyddog o awdurdod lleol arall i wneud yr ymchwiliad neu fel arall contractio'r ymchwiliad i Swyddog Iechyd yr Amgylchedd annibynnol neu ymgynghorol.

- Mewn amgylchiadau eithriadol, yn cadw pellter rhwng cynrychiolaeth gyfreithiol ei swyddogion gorfodi a'i ddeiliaid dyletswydd.